Rôl a Dyletswyddau Aelodau’r Pwyllgor

**Y Cadeirydd**

Y Cadeirydd yw’r prif bwynt cyswllt ar gyfer pob parti yn ystod gwrandawiad a chyfrifoldeb y Cadeirydd yw sicrhau bod yr achos yn mynd rhagddo’n esmwyth.

**Sesiwn agored y gwrandawiad.**

Yn ystod sesiwn agored gwrandawiad, cyfrifoldeb y Cadeirydd yw sicrhau:

- Y cynhelir yr achos o fewn Rheolau’r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer 2005, Rhannau 6-10.
- Y gofynnir i aelodau’r Pwyllgor gyflwyno eu hunain ac ym mha rinwedd maent yn eistedd; cyflwyno’r Cynghorydd Cyfreithiol, Trawsgrifwr a’r Swyddog Gwrandawiadau i’r rhai sy’n eistedd yn yr ystafell wrandawiadau.
- Bod yr amser yn cael ei ddefnyddio’n effeithiol gan y dylai’r Cadeirydd ymyrryd os bydd y Swyddog Cyflwyno/cynrychiolydd y cofrestrai/y cofrestrai (os nad yw’n cael ei gynrychioli) yn gwyro oddi wrth y mater neu’n ailadrodd dadleuon a wnaed yn flaenorol ac a ddeallwyd gan y Pwyllgor.
- Dylai’r Cadeirydd drafod materion sy’n ymwneud â phrydlondeb, argaeledd tystion, ayb, gyda’r partïon ac Aelodau’r Pwyllgor ar adegau priodol yn ystod y gwrandawiad.
- Mae’r rheini sy’n ymddangos gerbron y Pwyllgor, gan gynnwys tystion, yn cael eu trin yn gwrtais ac yn ystyriol.
- Mae’r rheini sy’n ymddangos gerbron y Pwyllgor yn ymgysylltu â’r broses mor effeithiol â phosibl drwy sicrhau bod modd deall unrhyw gwestiynau a ofynnir iddynt; bod gwahaniaethau diwylliannol a materion sy’n ymwneud â rhywedd yn cael eu hystyried; bod pob ymdrech resymol yn cael ei gwneud i ddarparu ar gyfer y rheini a allai fod yn ymprydio, neu sydd ag anabledd ac ati.
- Mae ef/hi yn barod i ymyrryd os yw tyst yn ymddangos yn ofidus tra’n rhoi tystiolaeth ac, os yw’n briodol, gorchymyn gohiriad i roi amser i’r tyst ymlonyddu ei hun cyn parhau.
- Gofynnir i’r Cynghorydd Cyfreithiol roi cyngor ar unrhyw bwyntiau cyfreithiol a allai godi ac ar unrhyw adeg cyn i’r Pwyllgor gynnal sesiwn yn y dirgel, ac i gyhoeddi a ofynnodd y Pwyllgor am gyngor ar unrhyw bwyntiau cyfreithiol gan y Cynghorydd Cyfreithiol yn ystod y sesiwn yn y dirgel.
- Lle bo cynghorydd arbenigol yn bresennol, mae’r cynghorydd hwnnw’n gweithredu o fewn terfynau’r rôl.

- Os oes gan aelod anabledd a ddatganwyd o unrhyw fath, dylid ystyried anabledd yr aelod ar bob cam yn ystod y gwrandawiad. Bydd y Cadeirydd yn cael ei friffio gan y Swyddog Gwrandawiadau cyn y gwrandawiad ynghylch dogfennau sydd ar gael i unrhyw aelodau sydd ag anabledd a ddatganwyd.
- Pan fydd anabledd yn hysbys ac yn cael ei wneud yn gyhoeddus, dylai'r Cadeirydd sicrhau ei fod yn hysbys i bob parti yn y gwrandawiad y dylent wneud ymdrechion priodol i ddarparu ar gyfer yr anabledd.
- Os oes gan aelod anabledd nad yw'n dymuno cael ei ddatgan yn gyhoeddus, dylai'r Cadeirydd ddarparu ar gyfer hyn, os yw'n bosibl, drwy gydol y gwrandawiad. Fodd bynnag, os nad yw'r Cadeirydd yn gwybod am unrhyw anabledd, mae'n dilyn na ellir gwneud unrhyw ddarpariaeth.
- Bydd egwyliau tŷ bach yn cael eu caniatáu fel sy'n briodol.

**Sesiynau yn y dirgel**

Pan fydd y Pwyllgor yn cynnal sesiwn yn y dirgel ar unrhyw adeg yn ystod y broses benderfynu,

cyfrifoldeb y Cadeirydd yw sicrhau:

- Bod yr amser yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol.
- Mae aelodau'r Pwyllgor yn deall y materion sy'n cael eu hystyried ac yn parhau i ganolbwyntio arnynt.
- Yn gyntaf, ceir trafodaeth gyffredinol am y materion er mwyn i bob Aelod o'r Pwyllgor allu mynegi barn gychwynnol am yr hyn sy'n bwysig yn eu barn hwy neu'r hyn nad yw'n bwysig.
- Mae holl Aelodau'r Pwyllgor yn cyfrannu at y drafodaeth a'r broses o wneud penderfyniadau.
- Os oes angen, dylai'r Cadeirydd ofyn i unrhyw aelod o'r Pwyllgor y mae'n ymddangos ei fod yn dominyddu'r drafodaeth i ganiatáu i eraill siarad a dod ag eraill i mewn nad ydynt, i bob golwg, yn cyfrannu at y drafodaeth drwy fod yn dawedog.
- Mae'r Cynghorydd Cyfreithiol yn rhoi unrhyw gyngor cyfreithiol perthnasol lle bo angen ond nid yw'n rheoli unrhyw drafodaeth nac yn ceisio llunio geiriad unrhyw benderfyniad.
- Mae eraill yn mynegi eu barn cyn i'r Cadeirydd gyfrannu ei farn ef/hi (mae hyn yn osgoi unrhyw ganfyddiad bod y Cadeirydd yn dylanwadu ar farn pobl eraill).

**Aelodau'r Pwyllgor**

Dylai aelodau'r pwyllgor bob amser fod yn ymwybodol o'r canlynol:

- Nid ydynt wedi'u rhwymo gan eu barn gychwynnol am yr achos gan y gallai aelodau eraill fod wedi nodi materion nad oedd yr aelod wedi'u hystyried nac wedi meddwl eu bod yn ddigon pwysig o'r blaen ond sydd, ar ôl pwyso a mesur ac ar ôl clywed barn pobl eraill, yn rhoi gwedd wahanol ar yr achos.
- Ni ddylent deimlo dan bwysau i newid eu barn am eu bod mewn lleiafrif.
- Pwrpas y drafodaeth yn y dirgel yw archwilio'n llawn yr agweddau ar yr achos:

(i) Y dystiolaeth berthnasol ar lafar ac ar bapur.
(ii) Y pwysau sydd i'w roi ar y dystiolaeth honno.
(iii) Y sylwadau a wnaed gan y ddau barti.
(iv) Os oes modd, dod i gonsensws.
(v) Lle mae'n amhosibl dod i gonsensws, pleidleisio.

Rhaid i unrhyw benderfyniad a wneir gan y Pwyllgor fod er budd y cyhoedd sy'n

cynnwys:

(i) Diogelu cleifion.
(ii) Cynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn.
(iii) Datgan a chynnal safonau ymddygiad priodol

*(Ni ddylid drysu rhwng hyn a chanfyddiad ar ffeithiau sy'n golygu penderfynu'n syml a yw'r Pwyllgor wedi canfod bod y ffeithiau wedi'u profi; nid yw'r canfyddiad hwn yn "benderfyniad" y gellir ei lywio gan ddiogelu cleifion, cynnal hyder y cyhoedd neu gynnal safonau priodol)*

- Mae penderfyniadau'r Pwyllgor yn cael eu gwneud gan fwyafrif syml. Ni chaiff Cadeirydd arfer pleidlais fwrw ac ni chaiff unrhyw aelod o'r Pwyllgor ymatal rhag pleidleisio a phan fo'r pleidleisiau'n gyfartal, rhaid i'r Pwyllgor benderfynu o blaid y cofrestrai.
- Mae penderfyniad y Pwyllgor yn adlewyrchu'r penderfyniadau a wnaed gan y Pwyllgor yn ei gyfanrwydd ac yn rhoi rhesymau clir dros eu penderfyniadau ar bob cam.
- Gall aelodau'r Pwyllgor ofyn am gyngor gan y Cynghorydd Cyfreithiol ar strwythuro'r penderfyniad ond rhaid i aelodau'r Pwyllgor yn unig benderfynu ar y penderfyniadau a'r rhesymau dros y penderfyniadau hynny.

- Mae’r Cadeirydd yn darllen y penderfyniad mewn fforwm agored.
- Os oes gan aelod anabledd a ddatganwyd o unrhyw fath, dylai’r aelod hysbysu Swyddog y Gwrandawiad a’r Cadeirydd am yr anabledd hwnnw. Bydd y Cadeirydd yn hysbysu’r ddau barti y bydd yn rhaid gwneud ymdrechion priodol i ddarparu ar gyfer yr anabledd hwnnw yn ystod y gwrandawiad.
- Gall unrhyw anabledd nad yw’r aelod yn dymuno cael ei gyhoeddi effeithio ar allu’r aelod i ddilyn y trafodion a rhaid ei ddatgan i’r Cadeirydd.

**Y Gwrandawiad**

**Addasrwydd Cyffredinol i Fynychu.** Dylai aelod o’r Pwyllgor sy’n ystyried nad yw’n gallu bod yn bresennol mewn eisteddiad roi gwybod i’r tîm Gwrandawiadau cyn gynted ag y bo modd er mwyn gallu enwebu rhywun i gymryd ei le.

**Teithio a llety.** Wrth fynychu gwrandawiadau a chyfarfodydd eraill y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer, rhaid i geisiadau teithio a llety gael eu gwneud drwy’r tîm cyfleusterau gan ddefnyddio’r ffurflen safonol. Dylid defnyddio’r dull teithio mwyaf cost-effeithiol bob amser.

**Cyrraedd ac Amseru.** Fel rheol gyffredinol, trefnir i bob gwrandawiad ddechrau am 9.30 a.m. oni nodir yn wahanol a dylech anelu at gofrestru o leiaf 30 munud ymlaen llaw fel y gellir bwrw ymlaen ag unrhyw faterion ymarferol. Bydd hyn yn cynnwys ethol cadeirydd, cyflwyniadau, darllen dogfennau gwrandawiad ymlaen llaw ac ati. Os cewch eich dal yn ôl oherwydd problemau trafnidiaeth, dylech gysylltu â’r Swyddog Gwrandawiadau dynodedig cyn gynted â phosibl a rhoi amcangyfrif o’r amser cyrraedd.

**Ymddygiad aelodau.** Anogir aelodau i aros yn y lleoliad yn ystod unrhyw egwyl er mwyn sicrhau nad oes unrhyw oedi diangen, ac yn ystod yr egwyliau hynny dylech sicrhau nad oes unrhyw alcohol yn cael ei yfed.

**Ymyriadau yn ystod achosion.** Yn ystod gwrandawiad lle mae aelod o’r Pwyllgor yn cael trafferth clywed y person sy’n annerch y Pwyllgor, mae’n dderbyniol i’r aelod ofyn ar unwaith i’r siaradwr godi ei lais ac ailadrodd yr hyn a ddwedwyd.

**Holi tystion.** Yn ystod y gwrandawiad, efallai y bydd aelodau'n dymuno gofyn cwestiynau i'r person sy'n rhoi tystiolaeth ond rhaid iddynt ymatal rhag gwneud hynny wrth i'r cwestiynu ddigwydd, ac yn hytrach llunio rhestr o gwestiynau y maent am eu gofyn ar yr adeg briodol.

**Ffioedd a threuliau.** Dylid anfon hawliadau am ffioedd a threuliau at y tîm Gwrandawiadau cyn gynted â phosibl ar ôl mynychu gwrandawiad neu fusnes arall y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer. Bydd y ffurflen hawlio ac amlen yn cael eu darparu i bob aelod ar y diwrnod y byddant yn bresennol.

**Cyswllt staff gwrandawiadau**

E-bost: Hearings@optical.org

Ffôn: 020 7580 3898